## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl ar Ddydd Mercher, 31ain Hydref, 2001 am 10.00 a.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, M.Ll. Davies, S. Drew, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, G. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, D.M. Morris (Sylwedydd), F. Shaw, J.A. Smith, S. Thomas, W.G. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, C.H. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (De), Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd), Pen Swyddog Rheoli Adeiladu (Gogledd) a Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr D.W. Davies, P. Douglas, R.W. Hughes a K.P. Stevens.

Gyda sêl bendith y Cadeirydd, fe gytunwyd bod yr eitem ganlynol i'w thrin yn y fan hon yn y gweithrediadau.

### 755. MELYD AVENUE, PRESTATYN

Cynigiodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones (a eiliwyd gan y Cynghorydd S. Drew) fod yr eitem hon, a oedd wedi'i rhestru ar yr agenda fel eitem Rhan II, i'w thrafod gyda'r wasg a'r cyhoedd yn bresennol.

Yn dilyn cyngor gan Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, fe gynigiwyd ymhellach fod y Farn gan y Cwnsler i'w chlywed cyn gwneud penderfyniad a oedd y Farn i'w thrafod dan Ran II.

O'i roi i bleidlais, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried y cyngor cyfreithiol gan y Cwnsler am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth yn cael ei datgelu iddynt fel y'i diffinnir dan Baragraff 12 Rhan I Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Ar ôl ymadawiad y Wasg a'r Cyhoedd, darllenodd Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y rhan fwyaf o'r Cyngor a dderbyniwyd. Cafwyd trafodaeth ar oblygiad y cyngor a roddwyd, yn arbennig mewn perthynas â dilysrwydd honedig caniatâd cynllunio 1980.

Yn y fan hon, gadawyd i'r Wasg a'r Cyhoedd ddod i mewn yn eu hôl i'r Siambr. O'i roi i bleidlais, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *bod y materion yn ymwneud â Melyd Avenue, Prestatyn i'w trafod yn llawn ac eithrio Barn y Cwnsler.*

Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio at yr ohebiaeth ddiweddar a dderbyniwyd oddi wrth Ann Jones AC a Chris Ruane AS ynghylch y dystiolaeth o ddinistrio daear foch daear yn yr ardal ddatblygu, a'r cais bod y Cyngor yn prynu'r safle. Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio wybod bod yr heddlu wedi'u hysbysu. Rhoddodd wybod ymhellach am yr ymdrechion i sicrhau cyllid neu gymorth grant gan Cadw neu Gyngor Cefn Gwlad Cymru a chyfeiriodd at ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Cadw a CCGC.

Cododd yr Aelodau gwestiynau ynghylch statws Caniatâd Heneb Restredig a'r angen am drwydded i glirio'r safle o ystyried presenoldeb honedig bywyd gwyllt gwarchodedig megis moch daear, ystlumod a madfallod dwr cribog.

Yn y fan hon cynigiodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones, ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd M.A. German, y dylid caniatáu i aelod o'r cyhoedd annerch y pwyllgor.

O'i roi i bleidlais, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *gwrthod y cynnig hwn.*

(Pleidleisiodd y Cynghorwyr N. Hugh-Jones a M.A. German o blaid y cynnig ac ataliodd yr Aelodau canlynol eu pleidlais - Cynghorwyr S. Drew, N.J. Hughes, C.H. Williams, R.Ll. Williams, G. Jones ac M.Ll. Davies).

Cynghorodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio y Pwyllgor Cynllunio nad oedd pwerau cynllunio'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ddiderfyn. Cyfeiriodd at bwerau i ddiddymu a materion iawndal.

Materion pellach a drafodwyd:-

(i) Datganiad y Cyngor i'r Wasg, a gyhoeddwyd ar 16eg Hydref 2001, a oedd yn awgrymu os oedd caniatâd cynllunio 1980 wedi "cychwyn" yna na allai'r Cyngor atal y datblygiad hwnnw rhag mynd yn ei flaen;

(ii) effaith y Caniatâd Heneb Restredig;

(iii) yr angen i Reoli Adeiladu fonitro'r gwaith adeiladu yn fanwl;

(iv) anallu'r Cyngor i atal datblygiad cyhyd ag y cydymffurfir ag amodau;

(v) ymddiriedwyd brîff gwylio i Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys fel rhan o'r amodau a osodwyd ar ganiatâd 1980 a byddent hwy'n gallu monitro gwaith mewn cysylltiad â gweddillion archeolegol;

(vi) roedd croeso i'r ymgeisydd drafod pethau â swyddogion y Cyngor unrhyw adeg;

(vii) er bod deddfwriaeth yn awr wedi cryfhau yn nhermau amodau posibl a phwerau cyngor i orfodi, roedd y Cyngor wedi'i rwymo gan y caniatâd a roddwyd yn 1980, a

(viii) fel yr argymhellwyd gan y Cabinet, byddai cyfarfod o amgylch bwrdd yn cael ei drefnu rhwng swyddogion, Aelodau ac aelodau cynrychioliadol y cyhoedd. Byddai Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol hefyd.

Fe:-

***BENDERFYNWYD****:-*

*(a) derbyn adroddiad y swyddogion;*

*(b) bod y Pwyllgor Cynllunio yn cydymdeimlo ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol, ond yn gofidio os oedd caniatâd 1980 wedi "cychwyn", bod eu dwylo wedi'u rhwymo;*

*(c) bod y Pwyllgor Cynllunio - yn cyfarwyddo Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio i ysgrifennu at y Cynulliad Cenedlaethol i ofyn am arolwg o hen ganiatâd cynllunio sy'n goroesi, a*

*(ch) hysbysu Aelodau'r Pwyllgor drwy lythyr o ganlyniad y cyfarfod o amgylch bwrdd a bod nodiadau'r cyfarfod i'w cylchlythyru.*

**756. <u>CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU</u>**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a)* *cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 03/2001/0708/PF | Newid defnydd arfaethedig annedd a thai allan yn ganolfan encil crefyddol breswyl yn Ty Brethyn, Fron Bache, Llangollen.<br>YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhif 3:-<br>3. Mae cyfleusterau i'w darparu a'u cynnal o fewn y safle ar gyfer llwytho, dadlwytho a throi cerbydau yn unol â chynllun sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'r cynllun a gymeradwyir wedyn i'w gwblhau cyn dechrau defnyddio'r datblygiad arfaethedig. |
| 09/2001/0754/PF | Codi adeilad amaethyddol i gadw da byw ynddo yn Efail, Y Waen, Bodfari, Dinbych.<br>YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhif 2:-<br>2. Cyn dechrau defnyddio'r adeilad, mae'r Estyll Swydd Efrog i'w staenio'n frown tywyll ac mae'r to a'r llenni gorchudd ochr i'w lliwio'n las llechen neu'n wyrdd tywyll (BS 18B25 neu 14C39), ac maent i'w cadw yn y lliwiau hynny bob amser. |
| 16/2001/0819/PO | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Babtie)<br>Codi annedd (Cais amlinellol) ar Lain 13 (Rhif 25) Tan Y Bryn, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun.<br>YN AMODOL ar yr amod newydd canlynol rhif 6:-<br>6. Nid oes dim arllwysiad dŵr wyneb i fod i'r system garthffos gyfunol.<br>RHESWM - nid oes digon o le yn y system bresennol i ddarparu ar gyfer llif dŵr wyneb ychwanegol. |
| 42/2001/0890/PC | Parhau i ddefnyddio tir ar gyfer lleoli 1 garafan breswyl yn Trecastell Nurseries, Newmarket Road, Dyserth, Y Rhyl. |
| 42/2001/0924/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn ac Asiantaeth yr Amgylchedd)<br>Newid mathau tai a gweddlun drwy godi 4 llain ychwanegol ar dir sy'n ffurfio lleiniau 5-10, 32-33, 57-79 Stad Plas Newydd, oddi ar Ffordd Pantycelyn, Prestatyn.<br>YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhif 1:-<br>1. Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud â'r 4 llain ychwanegol a'r newidiadau yn y mathau tai yn unig, fel y dangosir ar Luniad Gweddlun Rhif MA9022PL03 Rev C a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 17eg Medi 2001, bod y cynllun yn parhau i fod yn destun yr holl amodau cynllunio a osodwyd ar y caniatâd cynllunio cyfeirnod : 42/2000/1115/PF dyddiedig 26ain Ebrill 2001.<br>(Pleidleisiodd y Cynghorwyr N. Hugh-Jones ac S. Drew i wrthod caniatâd) |

43/2001/0825/PF

Gosod 2 ddysgl 1.2m ar y mast presennol yng Ngorsaf Drosglwyddo NTL, Gwaenysgor, Y Rhyl.
(Pleidleisiodd y Cynghorwyr S. Drew, M.A. German ac I.M. German i wrthod caniatâd)

44/1998/0515/PF

Adnewyddu Cais Cyfeirnod 2/RHU/144/92/P sy'n cynnwys stad ddiwydiant arfaethedig (codi 24 o unedau busnes a diwydiant (Dosbarthiadau B1 a B2) a llunio mynedfa newydd i gerbydau) ar dir yn gyfagos i Barc Busnes HTM/Lowlands, Ffordd Abergele, Rhuddlan, Y Rhyl.
YN AMODOL ar y Cytundeb Adran 106 a'r amod newydd rhif 16 sy'n dilyn:-
Roedd y caniatâd cynllunio blaenorol yn destun cytundeb cyfreithiol dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Roedd y cytundeb yn cynnwys pum cymal yn ymwneud â gwaith priffordd ar yr A547; rheoli amrywiol ddefnydd ar y safle; darparu arwyddion safle; tirlunio saernïol a dŵr wyneb. Mae'r cytundeb cynllunio sydd mewn bod i'w ddiweddaru i adlewyrchu'r cais cynllunio newydd hwn.
Amod ychwanegol i'w osod pan gyhoeddir caniatâd fel a ganlyn:-
16. Cyn cychwyn unrhyw ddatblygiad, mae arolwg i'w wneud i benderfynu a oes madfallod dŵr cribog i'w cael ar y safle ac mae'r arolwg i'w adael gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Os darganfyddir bod madfallod dŵr cribog i'w cael o fewn safle'r cais, mae mesurau lliniaru i'w hymgorffori o fewn y datblygiad yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn cychwyn unrhyw ddatblygiad.
RHESWM - er mwyn gwarchod unrhyw rywogaethau gwarchodedig ar y safle.

45/2001/0799/PF

Codi estyniad to serth deulawr wrth ochr y ty annedd yn 44 Lynton Walk, Y Rhyl.
(Ataliodd y Cynghorydd S. Drew ei phleidlais).

45/2001/0936/PF

(Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd, Mr a Mrs Williams, Bryn Arlais, Ffordd y Bryn, Llanelwy a Mr S. Roberts, 17 Clwydian Park Avenue, Llanelwy)
Newid defnydd siop adwerthu llawr cyntaf (Dosbarth A1) yn fan addoli Cristnogol a chyfleusterau cymunedol (Dosbarth D1) yn City Furnishings, Stryd Fawr, Llanelwy.
YN AMODOL ar y nodyn newydd canlynol i'r ymgeisydd:-
Mae Grwp Mynediad Sir Ddinbych yn tynnu sylw at y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ac yn argymell darpariaeth ar gyfer mynedfa ramp, uchafswm rhediad 1 mewn 15, trothwyon lefel isel, agoriadau drysau 800 mm a chyfleusterau toiled neillryw i'r anabl. Petaech ag angen unrhyw gyngor pellach a fyddech mor garedig â chysylltu â'r grwp mynediad lleol. E-bost - denbaccess@aol.com.

47/2001/0859/PF

(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth y Pen Swyddog Cefn Gwlad).
Codi garej ddwbl ar ei phen ei hun a llunio mynedfa newydd i gerbydau yn Y Ficerdy, Tremeirchion, Llanelwy.
(Pleidleisiodd y Cynghorydd S. Drew i wrthod caniatâd).
Aros cynlluniau diwygiedig/ychwanegol sy'n dangos manylion y fynedfa, cau'r fynedfa bresennol a dyluniad diwygiedig y garej - amodau i'w newid i gymryd y cynlluniau diwygiedig i ystyriaeth.

(ii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad a lleoliad |
|---|---|
| 42/2001/0761/PF | Addasu, estyniad a newidiadau i'r tai allan presennol i ffurfio uned breswyl hunangynhwysol ar ei phen ei hun i'w defnyddio'n atodol i'r brif annedd yn Bodnant Forge a chodi garej ddwbl ar ei phen ei hun yn Bodnant Forge, Penisa, Dyserth, Y Rhyl.<br>RHESWM - 1. - "Polisïau". |

*(b) Er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion, bod y cais canlynol i'w ganiatáu am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 45/2001/0729/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Ann Jones, AC)<br>Newid defnydd siop dosbarth A1 yn lle prydau parod poeth Dosbarth A3 yn 3 St. Margaret's Buildings, St. Margaret Drive, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar yr amodau newydd canlynol 1 - 4 :-<br>1. Mae'r datblygiad a ganiateir drwy hyn i'w ddechrau cyn pen pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.<br>2. Mae darpariaeth benodol i'w gwneud bob amser y mae'r siop ar agor ar gyfer gwaredu sbwriel gan cwsmeriaid, yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.<br>3. Cyn cychwyn defnyddio'r adeilad, mae cyfarpar ar gyfer trin ac alldynnu mygdarthau ac ogleuon sy'n deillio o baratoi a choginio bwyd i'w osod yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Ar ôl ei osod, mae'r cyfarpar i'w weithio bryd bynnag y mae paratoi a/neu goginio bwyd yn digwydd.<br>4. Nid yw'r adeilad i fod ar agor i gwsmeriaid y tu allan i'r amseroedd a'r dyddiau canlynol:<br>0800 o'r gloch tan 22.00 o'r gloch dydd Llun i ddydd Sadwrn a 10.00 o'r gloch tan 22.00 o'r gloch ar ddydd Sul.<br>Gwnaed y penderfyniad, a oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau canlynol:-<br>Ni fydd maint traffig yn cael ei gynyddu<br>Defnydd siopa eisoes yn ei le<br>Pwysig cadw siopau lleol yn agored.<br>(Pleidleisiodd y Cynghorwyr N. Hugh-Jones a N. Fletcher-Williams i wrthod caniatâd Cynllunio). |

*(c) gohiriwyd y cais canlynol am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 22/2001/0853/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth R. Harvard ar ran yr ymgeisydd).<br>Codi estyniad i amod adeilad llaethdy a gymeradwywyd yn flaenorol i'r ty annedd a ganiatawyd dan Rif Côd 22/2000/291/PF yn Fferm Plas yn Rhos, Llanychan, Rhuthun.<br>RHESWM - aros manylion pellach ar ddefnydd lle yn y to fel lle byw. |

*(ch) bod y cais canlynol i'w ohirio er mwyn gallu ymweld â'r safleoedd am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 17/2001/0841/PF | (Cyhoeddodd y Cynghorydd D.M. Holder ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried). |

(Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd a'r Ymgeisydd)
Codi adeilad da byw amaethyddol yn Ty-Hir, Pen y Stryt, Llandegla, Wrecsam.
RHESWM - i asesu graddfa'r adeilad arfaethedig mewn perthynas â'r anheddau presennol; ac
i asesu digonolrwydd y fynedfa

**757. CAIS GALW I MEWN - FFERM WYNT 15 TYRBIN ARFAETHEDIG YN NHIR MOSTYN/FOEL GOCH, NANTGLYN (CAIS CYNLLUNIO 25/710/99/PF)**

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) cyflwyno'r amodau cynllunio a amlinellwyd yn y rhestr yn Nogfen DCC1 (fel y'i diwygiwyd gan y Pwyllgor) i Arolygydd yr Ymchwiliad fel rhai sy'n dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol os digwydd y rhoddir caniatâd cynllunio;*

*(b) bod pennau telerau sylfaenol Ymrwymiad Adran 106 a amlinellwyd yn Nogfen DCC2 (fel y'i diwygiwyd gan y Pwyllgor) yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno i lunio ymrwymiad gyda chyfranogion perthnasol ar yr amod bod y Swyddog Cyfreithiol yn fodlon ar y manylion, a bod y datblygwyr, cyfranogion ac Arolygydd yr Ymchwiliad i'w hysbysu o hynny, a*

*(c) awdurdodi'r Swyddog Cyfreithiol a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio i drafod a chytuno diwygiadau ac ychwanegiadau addas i'r amodau a phennau telerau Ymrwymiad 106 fel y bo angen, cyn, yn ystod ac ar ôl yr Ymchwiliad, cyhyd ag y bo'r rhain yn parhau o fewn cwmpas sylfaenol Dogfen DCC1 a DCC2.*

**758. AROLWG O'R CYNLLUN DIRPRWYO A GWEITHDREFNAU ERAILL**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r argymhellion, yn amodol ar y diwygiadau canlynol ac yn amodol ar eu cadarnhau'n derfynol gan y Cyngor Llawn:-*

*Atodiad 2 Rhan 1 Cynllun dirprwyo:*

*(i) Yn ogystal â Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio, mae pwerau dirprwyedig i'w caniatáu i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd;*

*(ii) Cynnwys yn Rhan 2(A)(i) "heblaw'r rheini a ganiateir yn 1(1)";*

*(iii) Dylai'r cynllun codi tâl gynnwys darpariaeth ar gyfer gwerthu dogfennau CDU ac Adroddiad yr Arolygydd;*

*(iv) Côd Ymarfer*

*5.1 Gohebiaeth hwyr i'w derbyn erbyn 12 hanner dydd y diwrnod cyn y pwyllgor (nid 5.00p.m.) - yn amodol ar drafodaeth gydag Ombwdsman Llywodraeth Leol;*

*(v) Adroddiadau ar benderfyniadau apêl i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio bob chwarter*

**759. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am sêl bendith i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda sydd i'w cynnal ar 5ed Tachwedd 2001 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle a gymeradwywyd ar ddydd Llun, 5ed Tachwedd 2001.*

**760.** **RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynghylch ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 15fed Medi 2001 a 10fed Hydref 2001.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1. 20 p.m.

***************